

Adolygiad cyflym o risgiau iechyd corfforol sy'n gysylltiedig â thriniaethau arbennig (tatwio, tyllu'r corff, aciwbigo, electrolysis)

Meg Kiseleva, Judit Csontos, Deborah Edwards, Elizabeth Gillen, Mala Mann, Lydia Searchfield, Abubakar Sha'aban, Nathan Davies, Ruth Lewis, Alison Cooper, Adrian Edwards

Cefndir

Mae triniaethau arbennig, fel y nodwyd uchod, **yn cynnwys tyllu'r croen yn cario risg bosibl o haint a chymhlethdodau iechyd eraill**. Mae'r astudiaeth hon yn darparu sylfaen dystiolaeth gyfoes ar y prif risgiau iechyd corfforol sy'n gysylltiedig â'r triniaethau hyn.

Mae hyn wedi helpu i atgyfnerthu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer cyflwyno a gweithredu **cynllun trwyddedu gorfodol ar gyfer ymarferwyr a busnesau triniaethau arbennig yng Nghymru**, y disgwylir iddo ddechrau yn 2024.

Mae hyn yn cael ei gyflwyno o dan **Ran 4 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017**.

Dull

Adolygiad Cyflym o ymchwil a gyhoeddwyd rhwng 2015 a 2023.

Nododd chwiliadau rhagarweiniol nifer fawr o adolygiadau systematig presennol yn y maes hwn. Roedd yr adolygiad yn defnyddio trosolygon/mapiau o adolygiadau presennol. Lle nad oedd tystiolaeth, cynhaliwyd adolygiad o ymchwil newydd.

Canlyniadau

Dangosodd yr astudiaeth fod cymhlethdodau ac effeithiau andwyol a allai fod yn gysylltiedig â Thriniaethau Arbennig yn cynnwys:



Tatwio

- heintiau bacteriol, firaol a heintiau a gludir yn y gwaed
- adweithiau alergaidd
- twf malaen a diniwed
- adweithiau sy'n gysylltiedig â sarcoidosis
- amrywiaeth o adweithiau niweidiol eraill sy'n gysylltiedig â chroen



Colur lled-barhaol

- heintiau bacteriol a firaol
- adweithiau alergaidd
- adweithiau sy'n gysylltiedig â sarcoidosis
- amrywiaeth o adweithiau niweidiol eraill sy'n gysylltiedig â'r croen a'r llygad



Tyllu'r corff

- heintiau ffwnggaid, firaol a bacteriol
- adweithiau alergaidd
- twf malaen a diniwed
- adweithiau sy'n gysylltiedig â sarcoidosis
- adweithiau niweidiol eraill sy'n gysylltiedig â'r croen
- materion deintyddol



Aciwbigo

- heintiau
- adweithiau alergedd croen
- adweithiau niweidiol eraill sy'n gysylltiedig â'r croen



Electrolysis

- Adroddwyd am sarcoidosis croenol.
- Mae angen gwneud mwy o ymchwil.**

Goblygiadau Ymchwil

Mae'r Adolygiad Cyflym wedi darparu tystiolaeth gadarn i gymeradwyo **gofynion Rhan 4 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017**, ymhellach, i helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu'r 5 set o reoliadau drafft ar hyn o bryd ac i gefnogi datblygiad canllawiau anstatudol cysylltiedig gan Lywodraeth Cymru.

Dylai ymchwil sylfaenol yn y dyfodol **ddefnyddio dyluniadau mwy cadarn** i gasglu tystiolaeth am y **cysylltiadau achosol** rhwng triniaethau arbennig a digwyddiadau iechyd corfforol niweidiol yn ogystal â **nifer** yr achosion o ddigwyddiadau o'r fath.

Mae angen mwy o dystiolaeth i nodi risgiau iechyd corfforol sy'n gysylltiedig ag electrolysis.

[Cliciwch isod am yr adroddiad llawn](#)

<https://www.medrxiv.org/content/10.1101/2023.12.11.23299649v1.full.pdf>